

At: Aelodau'r Cabinet

Dyddiad: 13 Rhagfyr 2023

Rhif Union: 01824712568

ebost: [democrataidd@sirddinbych.gov.uk](mailto:democrataidd@sirddinbych.gov.uk)

Annwyl Gyngorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **CABINET, DYDD MAWRTH, 19 RHAGFYR 2023** am **10.00** am yn **SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y SIR, RHUTHUN A THRWY GYNHADLEDD FIDEO.**

Yn gywir iawn

G Williams  
Swyddog Monitro

## **AGENDA**

### **RHAN 1 – GWAHODDIR Y WASG A'R CYHOEDD I FOD YN BRESENNOL YN Y RHAN HON O'R CYFARFOD**

#### **1 YMDDIHEURIADAU**

#### **2 DATGAN CYSYLLTIAD** (Tudalennau 5 - 6)

Aelodau i ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu sy'n rhagfarnu ag unrhyw fusnes a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

#### **3 MATERION BRYS**

Hysbysiad o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

#### **4 COFNODION** (Tudalennau 7 - 14)

Derbyn cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 21 Tachwedd 2023 (copi ynghlwm).

**5 CYNNIG ARBEDION LLYFRGELL/SIOP UN ALWAD** (Tudalennau 15 - 130)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Emrys Wynne, Aelod Arweiniol y Gymraeg, Treftadaeth a Diwylliant (copi ynghlwm) yn amlinellu sut ellir cyflawni arbedion trwy leihau gwasanaethau llyfrgell/siop un alwad.

**6 GOSOD RHENT TAI A CHYLLIDEBAU CYFALAF A REFENIW TAI 2024/25** (Tudalennau 131 - 172)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Rhys Thomas, Aelod Arweiniol Tai a Chymunedau (copi ynghlwm) yn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet ar gyfer cynnydd rhent blynyddol ar gyfer Tai Sir Ddinbych, Cyllidebau Cyfalaf a Refeniw y Cyfrif Refeniw Tai ar gyfer 2024/25 a Chynllun Busnes y Stoc Dai.

**7 CAFFAEL PROSIECT CEFNOGI LLETY CYNALIADWY NEWYDD (ATAL DIGARTREFEDD)** (Tudalennau 173 - 220)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Rhys Thomas, Aelod Arweiniol Tai a Chymunedau (copi ynghlwm) yn nodi cynigion ar gyfer prosiect cefnogi hollistaidd newydd mewn perthynas â thai a cheisio cymeradwyaeth y Cabinet i ddechrau caffael y gwasanaeth hwn.

**8 CONTRACT AR GYFER CLUDO, DIDOLI A BROCERA DEUNYDD AILGYLCHU CYMYSG SYCH** (Tudalennau 221 - 248)

Ystyried adroddiad (**sy'n cynnwys atodiad cyfrinachol**) gan y Cynghorydd Barry Mellor, Aelod Arweiniol yr Amgylchedd a Chludiant (copi ynghlwm) ynglŷn â chontract y Cyngor ar gyfer prosesu deunydd Ailgylchu Cymysg Sych (ailgylchu bin glas) a cheisio cymeradwyaeth y Cabinet i ymestyn y contract presennol.

**9 ADRODDIAD CYLLID** (Tudalennau 249 - 342)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Gwyneth Ellis, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol (copi ynghlwm), ynglŷn â'r sefyllfa ariannol ddiweddaraf a'r cynnydd a wnaed o ran y strategaeth y cytunwyd arni ar gyfer y gyllideb.

**10 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CABINET** (Tudalennau 343 - 348)

Derbyn Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet sydd ynghlwm a nodi'r cynnwys.

**RHAN 2 – EITEMAU CYFRINACHOL**

## GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

Argymhellir, yn unol ag Adran 100A (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, bod y Wasg a'r Cyhoedd yn cael eu gwahardd o'r cyfarfod tra bydd yr eitem fusnes ganlynol yn cael ei thrafod oherwydd ei bod yn debygol y bydd gwybodaeth eithriedig yn cael ei datgelu fel y'i diffinnir ym mharagraff 14, Rhan 4, Atodlen 12A y Ddeddf.

### **11 FFRAMWAITH ADEILADU GOGLEDD CYMRU 3 - PENODI CONTRACTWYR** (Tudalennau 349 - 380)

Ystyried adroddiad cyfrinachol gan y Cynghorydd Julie Matthews, Aelod Arweiniol Polisi, Cydraddoldeb a Strategaeth Gorfforaethol (copi ynghlwm) yn cyflwyno canlyniad y broses gaffael ar gyfer Cam 3 o Fframwaith Adeiladu Gogledd Cymru a cheisio cymeradwyaeth y Cabinet ar gyfer penodi'r contractwyr llwyddiannus.

## **MEMBERSHIP**

### **Y Cynghorwyr**

Gwyneth Ellis  
Gill German  
Elen Heaton  
Julie Matthews  
Jason McLellan

Barry Mellor  
Win Mullen-James  
Rhys Thomas  
Emrys Wynne

### **COPIAU I'R:**

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth  
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd  
Cynghorau Tref a Chymuned